

# Telerau ac Amodau Digwyddiadau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r telerau a'r amodau a ganlyn yn gymwys wrth i fannau ar gyfer digwyddiadau ar draws ystâd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) gael eu defnyddio ac yn rheoleiddio'r defnydd ar y manau hynny. Mae'r caniatâd i ddefnyddio'r manau hyn yn amodol ar gydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn.

Gall methu cydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn arwain at ganslo trefniant sydd eisoes wedi'i wneud, gwrthod cynnal digwyddiadau, arddangosfeydd neu gyfarfodydd ar ystâd y Cynulliad yn y dyfodol, ac atebolrwydd am unrhyw hawliadau y gall fod gan y Cynulliad hawl i'w gwneud o dan y telerau a'r amodau hyn.

Mae cymhwyso a dehongli'r telerau a'r amodau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon, ac unrhyw ganllawiau eraill y cyfeirir yn bendant atynt yn dibynnu i ddechrau ar grebwyll a chydweithrediad trefnydd y digwyddiad unigol a'r Swyddog Digwyddiadau perthnasol yn y Cynulliad. Wedi hyn, y Tîm Digwyddiadau sy'n gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwestiynau dehongli, a Chyfarwyddiaeth y Cynulliad sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddehongli a gorfodi.

## 1. Diffiniadau

Ystyr "ni" yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae "ein" hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ystyr "chi" yw'r person (boed yn berson naturiol ynteu'n berson cyfreithiol) sydd wedi gwneud cais am gynnal digwyddiad ar ystâd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae "eich" hefyd yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â'r person hwnnw.

Ystyr "gwaith/gweithiau hawlfraint" yw gwaith o unrhyw un o'r disgrifiadau y mae hawlfraint yn bodoli fel y diffinnir gan adran 1(2) o Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

Ystyr "ystâd" yw adeiladu'r Senedd, y Pierhead a Thŷ Hywel.

Ystyr "digwyddiad" yw'r digwyddiad y cyfeirir ato yn y Ffurflen Ymholiadau Digwyddiad.

Ystyr "Trefnydd Digwyddiad" yw'r person neu'r sefydliad sy'n dymuno defnyddio cyfleusterau digwyddiadau'r Cynulliad a'i safleoedd i gynnal digwyddiad yn unol â'r telerau a'r amodau hyn.

Ystyr "canllawiau" yw'r wybodaeth a'r rhwymedigaethau a geir yn y dogfennau a ganlyn:

- Polisi Digwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Canllawiau Digwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Gwybodaeth i Westeion Digwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Gohebiaeth Dderbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sef y Llythyr/Neges E-bost Dderbyn Cychwynol a'r Llythyr/Neges E-bost i Gadarnhau Ymweliad â'r Safle.

Ystyr “Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru” yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Y Comisiwn yw perchennog yr Ystâd ac ef yw'r corff sy'n gwneud contractau gyda threfnwyr digwyddiadau ynglŷn â digwyddiadau a gynhelir ar yr ystâd. Mae'r disgrifiad generig, “Cynulliad Cenedlaethol Cymru”, yn cael ei ddefnyddio mewn dogfennau eraill yn y canllawiau y cyfeirir atynt ac mae wedi'i ymgorffori yn y telerau a'r amodau hyn, ond dylid darllen y disgrifiad hwn fel pe bai'n golygu “Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru” pan fo'n berthnasol o ran y gyfraith.

Ystyr “telerau ac amodau” yw'r telerau a'r amodau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon a'r holl ofynion, telerau, amodau, cyfyngiadau neu rwymedigaethau tebyg a nodir yn y canllawiau.

## **2. Y manau sydd wedi'u neilltuo**

Sylwch mai manau cyhoeddus yn bennaf yw'r adeiladau ar ystâd y Cynulliad. Dylech sicrhau na fydd eich digwyddiad/arddangosfa yn amharu ar y ffordd y maen nhw'n cael eu defnyddio.

Dylai allanfeydd tân gael eu cadw'n glir bob amser a rhaid ichi sicrhau na fydd eich offer a'ch personél yn eu rhwystro mewn unrhyw ffordd.

Rhaid sicrhau cymeradwyaeth eich Swyddog Digwyddiadau i symud unrhyw gelfi yn y fan sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y digwyddiad.

## **3. Iechyd a Diogelwch**

Rydych chi o dan ddyletswydd gofal tuag atoch chi'ch hun, eich gwesteion, deiliaid a defnyddwyr eraill ystâd y Cynulliad o ran iechyd a diogelwch, a dylech gymryd pob cam rhesymol i osgoi anaf i bersonau neu ddifrod i eiddo wrth baratoi'r digwyddiad a'i gyflawni.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau pob caniatâd angenrheidiol o ran iechyd a diogelwch, iechyd y cyhoedd a thrwyddedu a all fod yn gymwys i'ch digwyddiad pan nad ydynt eisoes wedi'u sicrhau neu wedi'u darparu gan y Cynulliad.

Mae trefnwyr digwyddiadau yn gyfrifol am gynnal asesiad iechyd a diogelwch o'u paneli arddangos a'u harddangosfeydd ac mae'r Cynulliad yn cadw'r hawl i gael gwared ar unrhyw arddangosfa y bernir ei bod yn peryglu iechyd a diogelwch.

Rhaid sicrhau nad oes ceblau'n rhydd ar y llawr, a rhaid i bob cebl gael ei sicrhau a/neu ei dapio i'r llawr.

Os yw eich arddangosfa'n un drom neu os oes arnoch angen help i ddod â'r arddangosfa i'r adeilad, rhaid i chi roi gwybod i'r Tîm Digwyddiadau ymlaen llaw. Mae gan y Cynulliad dîm bach o borthorion sydd ar gael i helpu, os trefnir hynny ymlaen llaw. Er mwyn sicrhau help y porthorion, rhaid i holl ddeunyddiau'r digwyddiad gydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch ynghylch arferion diogel o ran eu codi (hynny yw, argymhellion ar gyfyngiadau pwysau, maint a siâp).

#### **4. Noddi'r digwyddiad**

Mae'ch digwyddiad chi wedi'i noddi gan Aelod o'r Cynulliad (AC) neu gan grŵp yn y Cynulliad a rhaid i'r digwyddiad barhau i gael ei noddi er mwyn iddo fynd yn ei flaen. Os caiff y nawdd ei thynnu'n ôl neu os bydd yr AC sy'n eich noddi yn peidio â bod yn Aelod am unrhyw reswm, ac os na cheir noddwr arall o fewn 10 diwrnod gwaith, neu cyn dyddiad y digwyddiad os yw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach, rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r digwyddiad.

#### **5. Budd ariannol, codi arian a brandio**

Ni chaiff unigolyn na sefydliad wneud enillion ariannol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gynnal digwyddiad ar ystâd y Cynulliad. Rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r digwyddiad os canfyddwn ei fod yn cael ei drefnu neu ei hybu mewn modd y bwriedir iddo sicrhau budd ariannol.

Mae'r holl ystafelloedd yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim a rhaid peidio â'u defnyddio i sicrhau budd ariannol, gan gynnwys unrhyw fath o godi arian. Ni ddylid codi tâl am ddigwyddiadau neu gyfarfodydd a gynhelir ar ystâd y Cynulliad.

Rhaid ichi gydymffurfio a'r cyfarwyddiadau ynghylch brandio sydd wedi'u nodi yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r telerau a'r amodau hyn. Rydym yn cadw'r hawl i symud o'r golwg unrhyw ddeunyddiau brandio sydd heb eu cymeradwyo cyn y digwyddiad.

#### **6. Paratoi at y digwyddiad a'i gynnal**

Rhaid ichi roi rhestr inni o enwau'r gwesteion a'r cyfranogwyr eraill a fydd yn bresennol yn y digwyddiad erbyn 5pm ar y dydd Iau yn yr wythnos cyn eich digwyddiad.

Caniateir i chi gyflwyno rhestr ddiwygiedig o enwau'r gwesteion a'r cyfranogwyr eraill heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn dechrau arfaethedig y digwyddiad.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod pob gwestai, cyn y digwyddiad, yn cael yr holl wybodaeth a chyfarwyddiadau angenrheidiol i gyrraedd y digwyddiad (fel y maent wedi'u nodi'n fanylach yn yr Wybodaeth i

Westeion Digwyddiadau'r Cynulliad). Rydym yn cadw'r hawl i wahardd unrhyw un sy'n cyrraedd yn hwyr rhag cael mynediad.

Rhaid i chi a phawb sy'n eich helpu neu'n eich cynrychioli mewn unrhyw swyddogaeth yn y digwyddiad gydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn a'r holl ganllawiau eraill sy'n ymwneud â chynnal y digwyddiad a chydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol gan ein swyddogion neu'n staff. Rydym yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw westai neu gyfranogwr arall sy'n gwrthod cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad y manylir arno yng nghanllawiau A-Y Digwyddiadau.

Rhaid i chi gadw'r fan sydd wedi'i neilltuo i'r digwyddiad yn lân ac yn gymen, a rhaid cael gwared ar unrhyw sbwriel cyn i chi ymadael â'r safle.

Dim ond os dangosir eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfundrefn drwyddedu berthnasol ac os cytunir ymlaen llaw gan y Tîm Digwyddiadau y caniateir perfformiadau byw o unrhyw fath neu gerddoriaeth sydd wedi ei recordio.

## 7. Canslo

Mae busnes y Cynulliad yn cael blaenoriaeth dros bob trefniant ar gyfer digwyddiad ac rydym yn cadw'r hawl i adleoli, gohirio neu ganslo'r digwyddiad heb rybudd ymlaen llaw pan fydd angen gwneud hynny oherwydd busnes y Cynulliad. Nid yw adleoli, gohirio neu ganslo'r digwyddiad o dan yr amgylchiadau hyn yn gyfystyr â thorri contract ac nid yw'n golygu bod y Cynulliad yn atebol am dalu iawndal nac unrhyw fath all o iawn.

## 8. Newidiadau

Yn amodol ar unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol yn sgil busnes y Cynulliad, y cyfleusterau y manylwyd arnynt yn yr Ymweliad â'r Safle yw'r cyfleusterau a gaiff eu darparu gennym ar gyfer y digwyddiad. Gallwn gytuno i fân newidiadau ynglŷn â'r digwyddiad, yn ôl ein disgrisiwn ni yn unig, ond ni fyddwn yn cytuno â newid o'r fath o dan unrhyw amgylchiadau oni bai eich bod wedi rhoi'r cyfnod gofynnol o rybudd i ni yn unol â'r rhestr a ganlyn:

### Newidiadau mawr — 10 diwrnod gwaith clir

Bernir mai newidiadau mawr yw:

- newid offer a gwasanaethau sy'n defnyddio contractwyr allanol a/neu a fydd yn golygu cyfraniad sylweddol gan staff y Cynulliad;
- cynnydd neu ostyngiad mewn niferoedd a fydd yn golygu bod angen symud y digwyddiad i ystafell neu fan arall;
- newid mawr yn amser y digwyddiad a allai effeithio ar waith y Cynulliad neu ar amserlen yr AC sy'n noddi'ch digwyddiad neu ar amserlen siaradwr gwadd seneddol.

## Newidiadau canolig — 7 diwrnod gwaith clir

Bernir mai newidiadau canolig yw:

- newid offer neu wasanaethau a ddarperir gan y Cynulliad neu gontractwyr ar y safle;
- newid y cynllun y cytunwyd arno ar gyfer yr ystafell;
- mân addasiadau i raglen eich digwyddiad nad ydynt yn effeithio ar amser dechrau a diwedd eich digwyddiad ond a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau lletygarwch a gwasanaethau eraill yn ystod y digwyddiad ei hun.

## Mân newidiadau — ar y diwrnod

Bernir mai mân newidiadau yw:

- mân newidiadau i gynllun yr ystafell a'r gwasanaethau.

## **9. Rhwymedigaeth ac yswiriant**

I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, chi fydd yn atebol am bob hawliad, achos, cost a thraul sy'n codi o'ch defnydd ar safleoedd, cyfleusterau neu ddeunyddiau'r Cynulliad, neu mewn cysylltiad â hynny a rhaid ichi indemnio'r Cynulliad rhag y rhain.

Heb ragfarnu'ch rhwymedigaeth i indemnio'r Cynulliad yn y telerau a nodwyd uchod, mae'n ofynnol i chi godi a chadw yswiriant sy'n ddigonol i ymdrin ag unrhyw rwymedigaeth neu indemniad o'r fath, a dangos tystiolaeth o'r yswiriant hwnnw os gofynnir amdani.

I'r graddau a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd y Cynulliad, ei weision na'i asiantau yn atebol am unrhyw anaf, colled, cost neu draul i chi neu'ch gwesteion o ganlyniad i'r cytundeb hwn neu a geir wrth ddefnyddio safleoedd, cyfleusterau neu ddeunyddiau'r Cynulliad.

## **10. Diogelu Data a chyfrinachedd**

Byddwn yn cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a'r holl ddeddfau a rheoliadau cymwys eraill sy'n ymwneud â diogelu data a/neu breifatrwydd.

Ni chaiff cynnwys ein cytundeb gyda chi na'ch data personol eu datgelu i unrhyw drydydd parti heblaw at ddibenion mewn cysylltiad â threfnu a chyflawni'ch digwyddiad.

Pan fydd y gwaith/gweithiau hawlfraint yn cynnwys cyflwyniadau llafar, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, areithiau, sy'n cynnwys data personol a/neu sensitif, rydych yn rhoi caniatâd i ddefnyddio'r data hwnnw at ddiben y digwyddiad fel y nodir yn y dogfennau canllaw a'r telerau ac amodau hyn, gan gynnwys at y dibenion a nodir yn adran 11 isod.

## **11. Eiddo deallusol**

Wrth ystyried i ni gytuno i arddangos y gwaith/gweithiau hawlfraint yn ein safleoedd, rydych drwy hyn yn rhoi i ni:

- (a) eich caniatâd llwyr-gyfyngedig heb freindal i arddangos y gwaith/gweithiau hawlfraint yn ein safleoedd am hyd y digwyddiad;
- (b) eich caniatâd nad yw'n llwyr-gyfyngedig heb freindal i wneud (neu awdurdodi eraill i wneud) unrhyw ffotograff, ffilm, record neu fideo o'r gwaith/gweithiau hawlfraint ac i gynnwys yr un peth mewn unrhyw hysbysebu, llyfrynnau, cyhoeddusrwydd, deunyddiau, ffilmiau, fideos, darlleniadau teledu, gwefannau, ffrydio ar-lein neu unrhyw gyfryngau eraill; a
- (c) yr hawl i gyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r gwaith/gweithiau hawlfraint a defnyddio a chyhoeddi eich enw, ffotograff neu debyg, a manylion amdanoch chi at ddibenion o'r fath, os ydym yn dymuno gwneud hynny.

## **12. Y gyfraith lywodraethol**

Mae'r telerau a'r amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i'r awdurdodaeth honno yn unig.

Nid yw'r un ddarpariaeth yn y telerau a'r amodau hyn na dim byd yn y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r telerau a'r amodau hyn yn rhoi unrhyw hawliau i drydydd partïon ac mae Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 wedi'i eithrio'n benodol.

Y telerau a'r amodau hyn a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddynt sy'n ffurfio ac sy'n cynrychioli y cytundeb cyfan rhyngom ni, ac maent yn disodli pob cysylltiad ysgrifenedig a llafar blaenorol.

## **13. Derbyn**

Yn gyfnewid am dâl gennych o un hedyn pupur, os gofynnir amdano, rydym yn cytuno i ddarparu'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a nodir yng Ngohebiaeth Dderbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac sy'n destun y telerau a'r amodau hyn.

Llofnodwyd dros ac ar ran Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

.....

Enw:

Swydd:

Dyddiad:

Llofnodwyd dros ac ar ran .....

.....  
Enw:

Swydd:

Dyddiad: